# Cynorthwyo gyda darpariaeth gofal nyrsio cyffredinol i gleifion milfeddygol

## Trosolwg

Mae'r safon hon yn cynnwys cynorthwyo gyda darpariaeth gofal nyrsio cyffredinol i gleifion milfeddygol tra'u bod yn yr amgylchedd milfeddygol. Bydd hyn yn cynnwys cynorthwyo gyda chleifion milfeddygol â chlefydau heintus neu rai nad ydynt yn heintus.

Bydd gofal nyrsio cyffredinol yn cynnwys cynorthwyo gyda darpariaeth maeth a hylifau, therapi hylif ac archwilio rhwymau, eli a monitro clwyfau.

Mae'r safon hon yn addas ar gyfer Cynorthwywyr Gofal Ategol sydd yn gweithio o dan gyfarwyddyd staff milfeddygol cymwys.

## Meini prawf perfformiad

*Rhaid i chi allu:*

1. cadarnhau cyflwr y claf milfeddygol a'r gofal nyrsio cyffredinol sy'n ofynnol gyda staff ymarfer milfeddygol cymwys
2. cadarnhau a chael cyflenwadau o'r offer a'r deunyddiau sydd eu hangen i wneud y gwaith gofal nyrsio cyffredinol gofynnol ar gyfer cleifion milfeddygol
3. defnyddio'r gweithdrefnau rheoli heintiau gofynnol ar gyfer ymarfer milfeddygol sy'n berthnasol i'r maes ymarfer milfeddygol yr ydych yn gweithio ynddo
4. gwisgo'r dillad a'r offer amddiffynnol personol (PPE) gofynnol
5. ymdrin â'r claf milfeddygol gan ddefnyddio dull sy'n berthnasol i'w rywogaeth er mwyn lleihau problemau corfforol neu feddygol
6. darparu gofal nyrsio cyffredinol i gleifion milfeddygol yn unol â chyfarwyddyd staff ymarfer milfeddygol cymwys
7. cynorthwyo staff ymarfer milfeddygol cymwys i roi cymorth cyntaf neu driniaeth frys i gleifion milfeddygol
8. arsylwi a chofnodi cynnydd y claf milfeddygol sy'n cael ei nyrsio yn unol â chyfarwyddyd staff ymarfer milfeddygol cymwys
9. hysbysu staff ymarfer milfeddygol cymwys ynghylch unrhyw newidiadau a arsylwir yn y claf milfeddygol
10. cadw cofnodion yn unol â chyfarwyddyd staff ymarfer milfeddygol cymwys
11. gwaredu deunydd gwastraff clinigol ac anghlinigol yn unol â deddfwriaeth berthnasol a pholisi ymarfer milfeddygol
12. gwneud eich gwaith yn unol â deddfwriaeth amgylcheddol ac iechyd a diogelwch, gofynion asesu risg, codau ymarfer a pholisïau busnes
13. cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth lles anifeiliaid perthnasol wrth gynorthwyo darpariaeth gofal nyrsio cyffredinol

## Gwybodaeth a dealltwriaeth

*Mae angen i chi wybod a deall:*

1. pam y mae'n bwysig cadarnhau cyflwr y claf milfeddygol a'r gofal nyrsio gofynnol gyda staff ymarfer milfeddygol cymwys
2. yr offer a'r deunyddiau a ddefnyddir ar gyfer mathau gwahanol o ofal nyrsio cyffredinol ar gyfer cleifion milfeddygol
3. gweithdrefnau rheoli heintiau gofynnol ar gyfer ymarfer milfeddygol sy'n berthnasol i'r maes ymarfer milfeddygol yr ydych yn gweithio ynddo
4. y mathau o ddillad ac offer amddiffynnol personol (PPE) sy'n ofynnol ar gyfer y gweithgaredd
5. y mathau gwahanol o ofal nyrsio cyffredinol a wneir ar gleifion milfeddygol
6. sut i leoli ac atal rhywogaethau gwahanol o gleifion milfeddygol er mwyn cyflawni gofal nyrsio cyffredinol gwahanol
7. y gofal ychwanegol sy'n ofynnol ar gyfer clefydau heintus mewn unedau gofal milfeddygol safonol a heintus
8. y camau sy'n ofynnol wrth nyrsio cleifion milfeddygol â chyflyrau heintus neu filheintiol
9. egwyddorion meddygol a phrotocolau cymorth cyntaf a thriniaeth frys anifeiliaid yn y filfeddygfa
10. meini prawf arsylwi'r claf milfeddygol a ddefnyddir yn ystod mathau gwahanol o ofal nyrsio cyffredinol ar gyfer anifeiliaid
11. y rhesymau dros hysbysu ynghylch newidiadau mewn arsylwadau a'u goblygiadau ar gyfer gofal nyrsio cyffredinol i gleifion milfeddygol
12. y dulliau cywir a diogel ar gyfer gwaredu deunyddiau gwastraff clinigol ac anghlinigol
13. eich cyfrifoldeb yn unol â deddfwriaethau amgylcheddol ac iechyd a diogelwch perthnasol, deddfwriaeth lles anifeiliaid, codau ymarfer a pholisïau busnes

## Geirfa

Gofal meddygol cyffredinol: cynorthwyo'r gwaith o ddarparu maeth a hylifau, therapi hylifau, archwilio rhwymau, eli a monitro clwyfau.

LANAUX4

Cynorthwyo gyda darpariaeth gofal nyrsio cyffredinol i gleifion milfeddygol

| | |
|---|---|
| **Datblygwyd gan** | Lantra |
| **Dyddiad cymeradwyo** | 28 Chwef 2019 |
| **Dyddiad Adolygu Dangosol** | 28 Chwef 2024 |
| **Dilysrwydd** | Ar hyn o bryd |
| **Statws** | Gwreiddiol |
| **Sefydliad cychwynnol** | Lantra |
| **RCU gwreiddiol** | LANAUX6 |
| **Galwedigaethau perthnasol** | Cynorthwyydd gofal ategol milfeddygol, Nyrs milfeddygol |
| **Cyfres/Set** | Gwasanaethau nyrsio milfeddygol ac ategol |
| **Geiriau Allweddol** | milfeddygol; nyrsio cyffredinol; amgylcheddau clinigol |